

**Arolygiad Urddas a Gofal
Hanfodol (Dirybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf –
Ysbyty Brenhinol Morgannwg –
Adran 3 (Trawma ac
Orthopedeg)**

10 ac 11 Medi 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Ansawdd Profiad y Claf | 6 |
| Cyflenwi Hanfodion Gofal | 8 |
| Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 16 |
| Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol | 20 |
| Atodiad A | 30 |
| Atodiad B | 37 |

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd o Ward 3 Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 10 ac 11 Medi 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

2. Methodoleg

Mae Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas cleifion mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau ag aelodau staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi ei leoli yng nghanol de Cymru ychydig i'r gogledd o Gaerdydd, rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ac amcangyfrifir bod hynny tua 289,400 o bobl.

Ceir pedair ardal leol yn ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae tair ohonynt yn ardal Rhondda Cynon Taf. Cwm Cynon, Cwm Rhondda ac ardal Taf Elai yw'r rhain. Merthyr Tudful yw'r bedwaredd ardal leol. Cwm Taf yw'r bwrdd iechyd â'r ail ddwysedd poblogaeth mwyaf yng Nghymru, ac mae llawer o'i hardaloedd ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rheoli dau ysbyty cyffredinol dosbarth, pum ysbyty cymunedol a pharc iechyd prifysgol o'r radd flaenaf.

Ceir 28 o welyau cleifion ar Ward 3 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sydd wedi eu rhannu i ddarparu cymysgedd o gilfannau a chwibiclau 6 gwely; mae gorsaf y nyrsys a chlerc y ward yn ganolbwynt. Mae'r ward yn derbyn cleifion gwrywaidd a benywaidd sydd angen gofal trawma ac orthopedig. Pan yn bosibl, caiff y manau 6 gwely eu cyfyngu i gleifion gwrywaidd neu fenywaidd fel ffordd o hybu urddas. Caiff cawodydd/toiledau a manau ymolchi eu neilltuo i gleifion benywaidd neu wrywaidd hefyd, a nodir hyn gan arwyddion amlwg. Mae oeddrannau'r cleifion yn amrywio o 17 mlwydd oed i 65 oed a hŷn yn gyffredinol.

Roedd tri gwely gwag ar ddiwrnod yr arolygiad hwn. Hefyd, roedd paratodau wedi hen gychwyn i symud y cleifion a thîm y ward i Ward 4 a oedd yn wag ac wrthi'n cael ei hailwampio. Roedd y symud hwn yn cael ei wneud yn unol â chynlluniau cyffredol y Bwrdd Iechyd.

4. Crynodeb

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn fodlon iawn gyda'r ffordd roedd tîm y ward wedi darparu gofal a chefnogaeth iddynt. Canfuwyd gennym hefyd bod cleifion yn cael eu hannog i leisio eu barn os oes ganddynt unrhyw bryderon am eu triniaeth a'u bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch fel rheol.

Canfuwyd gennym fod yr aelodau staff wedi ymrwymo i ddarparu safonau da o ofal i gleifion dan bob amgylchiad. Roedd yn amlwg bod tîm y ward yn rhoi pwyslais ar drin cleifion a'u teuluoedd gydag urddas a pharch.

- Dywedodd nifer o gleifion a siaradodd â ni eu bod wedi cael yr opsiwn o gyfathrebu ag aelodau staff yr ysbyty yn yr iaith o'u dewis. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod aelodau staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnyn nhw a'u teuluoedd. Fodd bynnag, hysbyswyd y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau y darperir cymorth neu gymhorthion arbenigol i'r cleifion hynny ag anawsterau clywed, i'w galluogi i dderbyn ac ymateb i wybodaeth.
- Roedd y cleifion a gytunodd i siarad â ni yn llawn canmoliaeth i'r ffordd barchus y mae aelodau staff yn darparu gofal a chymorth iddynt yn feunyddiol, ac roedd rhai cleifion wedi bod ar y ward ers nifer o wythnosau.
- Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau gyda'r unigolion dan sylw y gall yr aelodau staff gynnig digon o amser iddynt gymryd rhan ymarferol yn eu gofal (yn enwedig o ran symud o gwmpas y ward ac yn ystod prydau bwyd).
- Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu croesawu ymwelwyr ar adegau ac eithrio'r cyfnodau a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer y ward. Fodd bynnag, roedd angen cytundeb rheolwr y ward ymlaen llaw fel rheol.
- Datgelodd sgysiau gyda chleifion eu bod yn cael cyfleoedd i orffwys yn ystod y dydd. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd bod yr aelodau staff yn rhoi blancedi ychwanegol iddynt os oedd eu hangen.
- Dynododd sgysiau gyda nifer fach o gleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn rhydd o boen. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd y ward yn asesu a chofnodi'r elfen ofal hon yn rheolaidd yn unol â'r Hanfodion Gofal.
- Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn cymorth gyda'u hylendid personol a'u hymddangosiad yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

- Caiff anghenion maethgol cleifion a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed eu hasesu'n rheolaidd. Rhoddir cyngor a chefnogaeth iddynt yn ôl yr angen.
- Anogir a chynorthwyr y cleifion i ofalu am eu cegau a darperir gofal a chymorth priodol yn ôl y gofyn.
- Roedd y cleifion yn ymwybodol o glychau galw nyrsys ac roedd ganddynt fynediad atynt bob amser, a oedd yn eu galluogi i ofyn am gymorth i fynd i'r toiled a dychwelyd oddi yno.
- Caiff y cleifion eu helpu i ofalu am eu croen ac mae tîm y ward yn gwneud ymdrechion i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod tîm y ward yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gwasanaethau i gleifion gan ddefnyddio prosesau rheoli sefydledig a pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau y ceir dealltwriaeth dda ohonynt ac sydd wedi eu cynllunio i sicrhau darpariaeth lwyddiannus o ofal a thriniaeth.

Serch hynny, canfuwyd gennym nad oedd rhai nyrsys cofrestredig yn teimlo wedi eu hymrymuso i wneud penderfyniadau am agweddau penodol ar ofal cleifion. Cynghorwyd y Bwrdd Iechyd felly i gyflwyno mesurau priodol i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus ac yn gymwys o ran pob agwedd ar y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion bob amser.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r sylw a oedd yn cael ei roi i faterion sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal iechyd/gwasanaethau diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, cynghorwyd y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod aelodau staff yn gymwys a hyderus wrth ddefnyddio'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Hysbyswyd y Bwrdd Iechyd hefyd am yr angen i sicrhau bod tîm y ward yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol o ran Atal a Rheoli Heintiau fel bod cleifion ac aelodau staff wedi eu diogelu bob amser.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn fodlon iawn gyda'r ffordd roedd tîm y ward wedi darparu gofal a chefnogaeth iddynt.

Canfuwyd gennym hefyd bod cleifion yn cael eu hannog i leisio eu barn os oes ganddynt unrhyw bryderon am eu triniaeth a'u bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch fel rheol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, dosbarthwyd mwy na 12 o holiaduron (AGIC) gennym i gleifion a pherthnasau mewn ymdrech i ganfod safbwyntiau pobl ar y gwasanaethau a ddarperir ar Ward 3. Hefyd, roedd nifer fach o berthnasau a oedd yn ymweld yn fodlon siarad â ni dros gyfnod o ddau ddiwrnod.

Cwblhawyd chwe holiadur cleifion yn y pen draw a dywedodd pob unigolyn ei fod yn cytuno'n gryf bod y ward yn lân ac yn daclus. Rhoddodd y cleifion eu caniatâd hefyd i ni gynnwys eu sylwadau ychwanegol ar lendid yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft:

'gwnaeth y ffordd y mae'r ward yn cael ei glanhau bob amser gryn argraff arnaf i'

'trefnus iawn'

'mae hyd yn oed yr ystafelloedd ymolchi'n lân'

Ac

'yn cadw pethau ac yn tacluso drwy'r amser'

Dywedodd rhai cleifion a nifer fach o berthnasau a siaradodd â ni'n uniongyrchol eu bod yn hapus gyda'r gofal nyrsio a dderbynnir ar y ward a nodwyd ganddynt bod awyrgylch hamddenol bob amser, waeth pa mor brysur yr oedd yn ymddangos oedd y ward.

Rhoddodd rhai cleifion a gwblhaodd yr holiadur safbwyntiau ychwanegol i ni ar aelodau staff yr ysbyty fel a ganlyn:

'balch iawn gyda'r ffordd i mi gael fy nhrin gan yr aelodau staff – meddygol a nyrsio'

'Nid yw meddygon yn dda am gyfathrebu bob amser. Disgwyl i lawfeddygon ddod yn ôl ac esbonio pam y digwyddodd pethau'

'Mae'r ffisiotherapyddion a'r nyrsys yn anhygoel'

Ac

'Mae cyfathrebiad â'r meddygon yn wael, yn disgwyl i feddygon gadarnhau apwyntiadau a llawdriniaethau yn y dyfodol'.

Dywedodd nifer fach o berthnasau wrthym hefyd eu bod yn anhapus gyda'r cyfathrebu rhwng eu perthynas â rhai aelodau staff meddygol. Tynnwyd sylw rheolwr y ward, yr uwch nyrs a'r cyfarwyddwr llawfeddygaeth clinigol at y mater hwn, a'r sylwadau uchod, felly. Fe'm hysbyswyd wedi hynny ar ail ddiwrnod yr arolygiad bod rhai camau priodol wedi eu cymryd eisoes i fynd i'r afael â'r materion hyn (er enghraifft, gwnaed apwyntiad i un perthynas gyfarfod â meddyg i dderbyn gwybodaeth ac roedd meddyg arall wedi siarad ag un claf a oedd angen rhagor o wybodaeth).

Arweiniodd cwestiynau ym mhedwar o'r holiaduron cleifion a gwblhawyd am y gofal a dderbyniwyd at ymateb 'Rhagorol'; penderfynodd y ddau unigolyn arall beidio â sgorio. Fodd bynnag, roedd pob un o'r chwe chlaf naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod aelodau staff yn garedig ac yn ystyriol ohonynt wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Dywedasant hefyd eu bod yn gallu bwyta eu bwyd eu hunain ar eu cyflymder eu hunain, bod ganddynt fynediad at ddŵr a bod ganddynt ddewis o ran eu hanghenion toiled/ymataliaeth. Hefyd, dywedodd y cleifion bod aelodau staff yn eu helpu i fwyta ac yfed ac yn gyffredinol brydlon wrth ymateb i'w galwadau am gymorth.

Dangosir sampl pellach o sylwadau y rhoddodd gleifion ganiatâd i ni eu cynnwys yn yr adroddiad hwn isod:

'Nid oes gennyf ffôn symudol. Roedd ffonau talu'n cael eu gwthio i ochr gwelyau cleifion ers talwm'.

'Wedi cael rhywfaint o drafferth yn cael y mesurau cywir o feddyginiaeth o'r fferyllfa'.

'Cyrhaeddodd yr ambiwlans fy nghartref o fewn 5 munud. Roedd aelodau staff yr adran damweiniau ac achosion brys yn wych. O'r adran damweiniau ac achosion brys i'r ward o fewn 3 awr'.

Amlygodd sgysiau gyda phedwar claf nad oeddent yn ymwybodol o weithdrefn gwynion y GIG. Fodd bynnag, nid oeddent wedi teimlo'r angen i godi unrhyw bryderon hyd yn hyn. Datgelodd sgwrs gyda rheolwr y ward bod llawer o bosteri a gwybodaeth i gleifion ar gael ar hysbysfyrdau yn y coridorau fel rheol. Fodd bynnag, gan fod symud i ward arall (cleifion ac aelodau staff) ar fin digwydd, roedd llawer iawn o'r wybodaeth arferol i gleifion yn cael ei storio mewn bocsys.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Canfuwyd gennym fod yr aelodau staff wedi ymrwymo i ddarparu safonau da o ofal i gleifion dan bob amgylchiad. Roedd yn amlwg bod tîm y ward yn rhoi pwyslais ar drin cleifion a'u teuluoedd gydag urddas a pharch.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Mae'n rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion

Dywedodd nifer o gleifion a siaradodd â ni eu bod wedi cael yr opsiwn o gyfathrebu ag aelodau staff yr ysbyty yn yr iaith o'u dewis. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod aelodau staff bob amser yn gwrtais ac yn gwranddo arnyh nhw a'u teuluoedd.

Dywedodd y cleifion bod aelodau staff bob amser yn eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis, yn siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac yn eu helpu i ddeall elfennau o'u gofal a'u triniaeth.

Fodd bynnag, datgelodd trafodaethau gyda rheolwr y ward nad oedd gan gleifion ag anawsterau clywed fynediad at system dolen sain. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhai cleifion yn gallu deall yn llawn y wybodaeth sy'n cael ei rhannu â nhw am eu gofal a'u triniaeth.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau y darperir cymorth neu gymhorthion arbenigol i'r cleifion hynny ag anawsterau clywed, gan eu galluogi i dderbyn ac ymateb i wybodaeth.

Datgelodd sgysiau gyda mwy na hanner y cleifion ar y ward dros gyfnod o ddau ddiwrnod bod yr aelodau staff yn cymryd amser i wrando'n ofalus ar yr hyn roeddent yn dymuno ei ddweud. Fe'n hysbyswyd hefyd bod aelodau staff yn ymateb i'w cwestiynau a rhai eu perthnasau mewn ffordd agored a chynorthwyol.

Parchu Pobl

Mae'n rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis cytbwys bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn i ystyriaeth.

Roedd y cleifion a gytunodd i siarad â ni yn llawn canmoliaeth i'r ffordd barchus y mae aelodau staff yn darparu gofal a chymorth iddynt yn feunyddiol, ac roedd rhai cleifion wedi bod ar y ward ers nifer o wythnosau.

Yn benodol, fe'n hysbyswyd gan y cleifion bod yr aelodau staff bob amser yn amyneddgar, yn drugarog ac yn dangos parch, yn enwedig ar adegau pan roeddent angen help i ymolchi a gwisgo a defnyddio'r toiled. Dangosodd arsylwadau o sut roedd y tîm yn gweithio gyda'i gilydd ar wahanol adegau yn ystod yr arolygiad yn dangos yr ymdrechion a wneir i weithio mor effeithlon â phosibl er mwyn diwallu anghenion pobl. Gwelsom hefyd, yn gyffredinol, bod aelodau staff yn defnyddio llenni i sicrhau preifatrwydd pob claf, gan ddefnyddio arwyddion priodol i rybuddio eraill bod cymorth personol yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, er bod aelodau staff yn aml yn cyfleu gwybodaeth i gleifion mewn tôn dawel, roedd sawl achlysur pan roedd yn bosibl clywed aelodau o dîm y ward yn eglur yn trafod agweddau personol ar ofal cleifion. Gwelsom hefyd nad oedd llenni wedi eu tynnu'n llawn ar adegau pan roedd aelodau staff yn rhoi meddyginiaeth i gleifion trwy bigiad. Hefyd, siaradodd meddyg â chlaf am ganlyniad ymchwiliad diweddar ym mhresenoldeb aelod o'r tîm arolygu ac ar lefel y gallai gael ei glywed yn eglur gan berthnasau a oedd yn ymweld.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion gofal cleifion ar waelod eu gwelyau eu bod yn cynnwys copi o rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer cleifion a pherthnasau. Roedd y wybodaeth yn ymwneud ag 'Addewid Urddas' y Bwrdd ac atal achosion o gleifion yn cwmpo yn yr ysbyty. Roedd arolwg cleifion gwag wedi ei gynnwys yn ffeiliau/cofnodion y cleifion hefyd a'i fwriad oedd galluogi ac annog unigolion i gynnig eu safbwyntiau i dîm y ward. Fodd bynnag, dangosodd sgyrsiau gyda chleifion yn eglur nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw ran o'r wybodaeth uchod. Trafodwyd y mater hwn gyda rheolwr ac uwch nyrs y ward, fel y gallent ystyried y ffordd orau o wella ymwybyddiaeth cleifion o'r wybodaeth hon.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u hawliau dynol sylfaenol tra yn yr ysbyty.

Hybu annibyniaeth

Mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i wneud y gorau o'i allu a'i ddymuniad i ofalu am ei hun.

Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau gyda'r unigolion dan sylw y gall yr aelodau staff gynnig digon o amser iddynt

gymryd rhan ymarferol yn eu gofal (yn enwedig o ran symud o gwmpas y ward ac yn ystod prydau bwyd).

Canfuwyd gennym fod tîm y ward wedi gwneud atgyfeiriadau priodol at aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth fel ffisiotherapyddion a nyrsys lleddfu poen arbenigol fel ffordd o hybu annibyniaeth cleifion cymaint â phosibl.

Gwelsom hefyd bod yr aelodau staff yn sicrhau bod gan gleifion eu cloch i alw'r nyrsys, diodydd ac eitemau personol eraill o fewn cyrraedd rhwydd ar yr erchwyn, er mwyn galluogi cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Hefyd, roedd rhai cleifion yn defnyddio cymhorthion cerdded i'w cynorthwyo i symud o gwmpas y ward yn rhydd ac yn ddiogel.

Fodd bynnag, canfuwyd enghreifftiau gennym lle gallai'r aelodau staff wedi bod yn fwy rhagweithiol. Amlinellir y canfyddiadau hynny yn yr adran o'r adroddiad hwn o'r enw 'Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol' dan yr is-bennawd dogfennau.

Cysylltiadau

Mae'n rhaid annog pobl i gynnal eu cysylltiadau â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu perthynas gydag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu croesawu ymwelwyr ar adegau ac eithrio'r cyfnodau a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer y ward. Fodd bynnag, roedd angen cytundeb rheolwr y ward ymlaen llaw fel rheol.

Nid oes ystafell ymwelwyr ar y ward ac mae'n rhaid cynnal sgysiau cyfrinachol a phreifat yn swyddfa rheolwr y ward sy'n glos iawn. Mae ystafell ddydd ar gael i gleifion ar Ward 3, ond rhennir y lle cyfyngedig rhwng tair ward a ni chanfuwyd ei bod yn groesawgar na chyfforddus. Hefyd, mae lleoliad yr ardal hon mewn perthynas â phrif ran y ward yn gwneud arsylwi cleifion yn eithriadol o anodd i'r aelodau staff. Yn ystod yr arolygiad deuddydd, dim ond gan berthnasau a oedd yn aros am ddechrau'r cyfnod ymweld y gwelwyd yr ystafell ddydd yn cael ei defnyddio.

Gorffwys, Cwsq a Gweithgarwch

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwysu a chysgu.

Datgelodd sgysiau gyda chleifion eu bod yn cael cyfleoedd i orffwys yn ystod y dydd. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd bod yr aelodau staff yn rhoi blancedi ychwanegol iddynt os oedd eu hangen.

Canfuwyd gennym fod gan y cleifion ddigon o obenyddion i'w gwneud yn gyfforddus dros ddau ddiwrnod yr arolygiad ac roedd lefelau sŵn ar y ward yn isel. Ni ddywedodd y cleifion a siaradodd â ni bod eu cwsg yn cael ei ymyrryd yn ystod y nos. Dywedasant hefyd eu bod yn gallu gorffwyso yn ystod y dydd.

Sicrhau Cysur, Lleddfu Poen

Mae'n rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus a rhydd o boen ag y mae eu hamgylchiadau yn ei ganiatáu

Dynododd sgysiaiu gyda nifer fach o gleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn rhydd o boen. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd y ward yn asesu a chofnodi'r elfen ofal hon yn rheolaidd yn unol â'r Hanfodion Gofal.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad hwn bod tîm y ward wedi cofnodi rhywfaint o wybodaeth gychwynnol am gleifion a oedd yn derbyn lladdwyr poen. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o asesiad o lefel poen cleifion cyn, neu ar ôl, rhoi meddyginiaeth lleddfu poen iddynt ar bresgripsiwn. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig felly i gadarnhau bod meddyginiaeth o'r fath wedi bod yn effeithiol, neu fod ei hangen o hyd.

Datgelodd sgwrs gyda chlaf bod lefel ei boen wedi cael ei gwella trwy ddefnyddio meddyginiaeth presgripsiwn. Fodd bynnag, er y gwelliant hwn, roedd yr unigolyn dan sylw yn dal i fod mewn poen sylweddol. Fe'n hysbyswyd hefyd gan y claf a'i berthynas nad oedd y tîm meddygol wedi esbonio pam roedd y sefyllfa hon yn parhau. Tynnwyd sylw rheolwr ac uwch nyrs y ward at y mater hwn a chymerwyd camau i'w ddatrys erbyn ail ddiwrnod ein hymweliad, er bodlonwydd y bobl dan sylw.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Mae hyn er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol. Gellir cofnodi canlyniadau penderfyniadau wedyn ar gyfer parhad gofal y claf.

Hylendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Mae'n rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn cymorth gyda'u hylendid personol a'u hymddangosiad yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Dangosodd arsylwadau dros ddau ddiwrnod a sgysiau gyda chleifion eu bod yn cael eu helpu yn ôl yr angen o ran hylendid personol a gofal traed. Gwelsom hefyd bod rhai cleifion yn gallu gwisgo eu dillad eu hunain yn ystod y dydd yn hytrach na gwisg nos, yn unol â'u dymuniadau.

Fodd bynnag, canfuwyd bod angen glanhau ewinedd un claf. Canfuwyd gennym hefyd bod cawodydd y ward yn sych ar bob adeg o'r diwrnod gan awgrymu nad oeddent wedi cael eu defnyddio. Datgelodd sgysiau gydag aelodau staff nad yw rhai cleifion yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn yn ystod y cyfnodau cyn ac ar ôl eu llawdriniaeth, ond fe'n hysbyswyd hefyd gan aelod o dîm y ward bod y cawodydd yn tueddu i gael eu defnyddio gan aelodau'r staff nos ar adegau pan fyddant yn cynorthwyo cleifion i ymolchi cyn 7 o'r gloch y bore. Er na fynegodd yr un o'r cleifion a siaradodd â ni unrhyw safbwyntiau negyddol am yr arfer hwn, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym i awgrymu bod cleifion wedi gofyn am gymorth ar yr adeg benodol hon o'r diwrnod.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn gofal a chefnogaeth gyda'u hylendid personol ar adegau o'r diwrnod sy'n cyd-fynd â'u dymuniadau personol a nodwyd.

Fel arall, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da. Hefyd, gwelwyd bod stoc dillad y ward yn cynnwys nifer o ynau urddas, dillad isaf a phyjamas.

Bwyta ac Yfed

Mae'n rhaid i bobl gael cynnig dewis o fwyd a diod sy'n bodloni eu gofynion maethgol a phersonol a derbyn unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Caiff anghenion maethgol cleifion a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed eu hasesu'n rheolaidd. Rhoddir cyngor a chefnogaeth iddynt yn ôl yr angen.

Dywedodd nifer o gleifion a siaradodd â ni bod y bwyd yn dda. Rhoddwyd pryd arall o'u dewis ar unwaith i'r rhai nad oedd yn hoffi'r pryd a oedd yn cael ei weini ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad.

Fe'n hysbyswyd gan rai cleifion eu bod yn derbyn llieiniau gwlyb neu bowlen ymolchi cyn bwyta eu prydau, ond dywedodd eraill nad oedd y rhain yn cael eu darparu.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd yn unol â'u dymuniadau ac yn unol â'r Hanfodion Gofal.

Canfuwyd gennym nad oedd gan gleifion ddewis o ran ble yr hoffent fwyta eu prydau. Roedd hyn oherwydd nad oedd man bwyta ar wahân ar y ward. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol gan gleifion am orfod bwyta ac yfed ar yr erchwyn.

Mae trefniadau prydau bwyd wedi'u diogelu¹ ar waith ar y ward; fodd bynnag, dywedodd rheolwr y ward wrthym ei bod yn anodd gwneud hyn yn ymarferol oherwydd yr angen i gleifion gael eu hasesu gan feddygon ar yr un diwrnod maent yn derbyn llawdriniaeth (ac mae ymweliadau o'r fath yn tueddu i ddigwydd ar wahanol adegau trwy gydol bob diwrnod). Disgrifiodd, fodd bynnag, yr ymdrechion a wnaed gan y tîm staff i sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu cynorthwyo i fwyta ac yfed. Cadarnhaodd arsylwi uniongyrchol o amser pryd bwyd bod yr aelodau staff yn gallu gweini bwyd a chynorthwyo cleifion mewn ffordd nad yw'n frysio.

¹ 'Amser Prydau Bwyd wedi'u Diogelu'. Cyfnod yw hwn yn ystod amser cinio a phrydau fin nos pan ddylai'r holl weithgareddau ar ward ysbyty ddod i ben. Rhoddir y drefn hon ar waith fel bod nyrsys a staff cadw tŷ ar gael i helpu i weini bwyd a rhoi cymorth i gleifion sydd angen help. Mae amser prydau bwyd wedi'u diogelu hefyd yn atal ymyriadau diangen i brydau bwyd cleifion.

Nid oedd y system Hambwrdd Coch² ar waith, ond canfuwyd gennym fod rheolwr y ward wedi sefydlu trefniadau priodol eraill i sicrhau bod cleifion a oedd mewn perygl o fethu â bwyta neu yfed digon yn cael eu monitro'n ofalus a'u cefnogi.

Galluogodd arsylwi pryd bwyd ni i gadarnhau ymhellach bod cleifion yn cael eu cynorthwyo i eistedd i fyny cyn bwyta eu prydau.

Gwelsom fod byrddau ar yr erchwyn yn cael eu clirio ond nid eu glanhau cyn i brydau gael eu gweini. Gwelsom hefyd nifer fach o achosion lle na roddwyd bwyd pobl o fewn cyrraedd rhwydd.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn rhoi bwyd a diod o fewn cyrraedd rhwydd i bob claf.

Iechyd a Hylendid y Geg

Mae'n rhaid cefnogi pobl i gadw cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Anogir a chynorthwyr y cleifion i ofalu am eu cegau a darperir gofal a chymorth priodol yn ôl y gofyn.

Galluogodd sgysiau gyda chleifion i ni gadarnhau eu bod yn cael eu hannog a'u helpu i ofalu am eu cegau a glanhau eu dannedd yn rheolaidd. Amlygodd cyfweiliadau gyda nyrsys cofrestredig hefyd eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal y geg rheolaidd.

Ni archwiliwyd yr agwedd hon ar yr Hanfodion Gofal fel arall.

Anghenion Toiled

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, synhwyrol a phrydlon yn ôl y gofyn, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatwydd i ystyriaeth.

² Mae'r system Hambwrdd Coch yn helpu i leihau risg maethgol mewn ysbytai trwy gynnig arwydd bod cleifion sy'n agored i niwed angen help a chefnogaeth gan aelodau staff, neu ar achlysuron pan aseswyd bod gan gleifion gymeriant dietegol gwael.

Roedd y cleifion yn ymwybodol o glychau galw nyrsys ac roedd ganddynt fynediad atynt bob amser, a oedd yn eu galluogi i ofyn am gymorth i fynd i'r toiled a dychwelyd oddi yno.

Nododd sgysiaiu gyda chleifion bod aelodau staff yn ymateb yn brydlon ac yn ystyriol i'w ceisiadau'n ymwneud ag anghenion toiled yn gyffredinol. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd y byddai'r aelodau staff yn esbonio'r rhesymau am achosion lle'r oedd oediadau byr.

Gellid dod o hyd i'r toiledau'n rhwydd oherwydd yr arwyddion gwryw/benyw eglur ar y drysau. Canfuwyd fod pob un yn lân yn ystod dau ddiwrnod yr arolygiad hwn. Roedd papur toiled, peiriant sebon a pheiriant llieiniau papur di-gyffwrdd ar gael hefyd.

Atal Briwiau Pwyso

Mae'n rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Caiff y cleifion eu helpu i ofalu am eu croen ac mae tîm y ward yn gwneud ymdrechion i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Dangoswyd o graffu ar sampl o gofnodion cleifion bod cyflwr eu croen yn cael ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd trwy gydol eu hamser ar y ward. Gwneir hyn trwy ddefnyddio dogfennau bwndel SKIN³ sy'n atgoffa aelodau staff i annog cleifion i newid eu lleoliad yn y gwely neu'r gadair. Pan nad oedd cleifion yn gallu gwneud hyn yn annibynnol, fe'u cynorthwywyd i symud i wahanol leoliad gan ddefnyddio cymhorthion codi a chario.

Roedd dogfennau manau pwyso a archwiliwyd hefyd yn nodi bod aelodau staff yn cofnodi eu canfyddiadau ac yn gwerthuso gofal cleifion gan wneud newidiadau i'w dull yn unol â hynny.

Gwelwyd bod cadeiriau priodol ac offer codi a chario cleifion ar gael yn ardaloedd y ward ynghyd â matresi lleddfu pwysau.

³ Os ystyrir bod claf mewn perygl o ddatblygu wlser pwyso, mae bwndel SKIN yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys gofnodi eu bod wedi archwilio eu croen bob dwy awr o leiaf, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod tîm y ward yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gwasanaethau i gleifion gan ddefnyddio prosesau rheoli sefydledig a pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau y ceir dealltwriaeth dda ohonynt ac sydd wedi eu cynllunio i sicrhau darpariaeth lwyddiannus o ofal a thriniaeth.

Lefelau Staffio a Chymysgedd Sgiliau ac Atebolrwydd Proffesiynol

Nododd arsylwadau cyffredinol a wnaed yn y ward dros gyfnod o ddau ddiwrnod bod aelodau staff wedi eu lleoli'n gyfleus mewn manau lle'r oedd cleifion bob amser. Datgelodd sgysiau gyda rheolwr ac uwch nyrs y ward ymhellach bod nifer y nyrsys cofrestredig ar y ward yn cyfateb i Egwyddorion Arweiniol y Prif Swyddog Nyrsio ar gyfer lefelau staffio. Cynhyrchwyd yr Egwyddorion ar gyfer wardiau meddygol cyffredinol aciwt a wardiau llawfeddygaeth gyffredinol, ac mae Ward 3 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn darparu gwasanaethau trawma ac orthopedeg. O gofio bod y Bwrdd Iechyd wedi dewis cydymffurfio â'r Egwyddorion Arweiniol o 1 nyrs gofrestrdig i 7 claf yn ystod y dydd, mae hwn yn fesur o arfer da. Hefyd, cynigiodd y cleifion a siaradodd â ni nifer o sylwadau cadarnhaol am dîm y ward.

Fe'n hysbyswyd bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau adolygiad o'r oriau a neilltuir gan reolwyr wardiau i arfer clinigol yn ddiweddar a'r amseroedd pan nad ydynt wedi eu cynnwys yn y niferoedd o nyrsys cofrestredig (i'w galluogi i gyflawni dyletswyddau rheoli a goruchwyllo hollbwysig a sicrhau bod y ward yn cael ei rhedeg yn ddiogel). O ganlyniad i'r ymarfer hwn, rhennir amser rheolwyr wardiau yn gyfartal bellach - 50% yn darparu gofal a 50% wedi ei neilltuo i ddyletswyddau arweinyddiaeth/rheoli, (sy'n gynydd i amser ychwanegol).

Datgelodd sgysiau gyda'r uwch nyrs hefyd y pwyslais a roddir ar ddatblygu nyrsys cofrestredig (a adnabyddir hefyd fel cynllunio olyniaeth), fel bod y gallu gan y Bwrdd Iechyd i gael rheolwr ward newydd pan fydd un arall yn gadael, neu ar adegau pan gynnigir cynnydd gyrfaoel iddynt.

Roedd nifer fach o aelodau staff banc ar ddyletswydd yn ystod dau ddiwrnod yr arolygiad, o ganlyniad i salwch hirdymor. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod lefelau salwch ar y ward yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd ac roedd trosiant staff yn gymharol isel hefyd. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan aelodau staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dangosodd sgwrs gyda'r uwch nyrs bod polisi dwysáu ar waith. Mae hyn yn golygu y gall rheolwr y ward a/neu ei dirprwy ofyn am aelodau staff ychwanegol

a'u derbyn mewn ymateb uniongyrchol i newidiadau a nodwyd i anghenion cleifion. Fe'n hysbyswyd ei bod yn haws cael gafael ar aelodau staff ychwanegol yn ystod y dydd, ond os bydd cleifion yn cael eu derbyn ar sail frys yn ystod y nos mae'r cydgysylltydd nos yn aml yn gallu trosglwyddo aelodau staff o un ward i'r llall dros dro.

Roedd yn amlwg bod rheolwyr y ward a'r uwch nyrs yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu diwallu. Dangosodd sgysiau gydag aelodau eraill o dîm y ward bod arddull reoli agored a didwyll yn bodoli sy'n annog aelodau staff i godi unrhyw bryderon am y ddarpariaeth o ofal i gleifion. Fe'n hysbyswyd hefyd bod rheolwr y ward, y dirprwy a'r uwch nyrs i'w gweld bob amser. Cadarnhaodd arsylwadau cyffredinol yn ystod yr arolygiad hwn yn eglur yr ymdrechion a wneir gan y tîm staff cyfan i gefnogi cleifion mewn ffordd hamddenol a thrugarog.

Canfuwyd gennym hefyd y rhoddir pwyslais mawr ar hybu gwaith tîm da a diwylliant gwaith cadarnhaol wrth i weithwyr gofal iechyd cynorthwyol dderbyn cyfarwyddyd a chefnogaeth gan y nyrsys cofrestredig.

Systemau Effeithiol ar gyfer Trefnu Gofal Clinigol

Canfuwyd gennym fod system o Rowndio Bwriadol⁴ ar waith trwy archwilio sampl o gofnodion cleifion a thrafodaethau gydag aelodau staff.

Dangosodd sgwrs gyda rheolwr y ward y gwneir pob ymdrech i roi cleifion a'u perthnasau yn gyntaf, trwy eu galluogi i gael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth. Gwneir hyn weithiau trwy sgysiau dros y ffôn yn ogystal â sgysiau wyneb yn wyneb.

Mae'r ward yn cynnal cyfarfodydd amlddisgyblaeth tair gwaith yr wythnos fel ffordd o sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei ddarparu fel y cynlluniwyd. Cynhelir cyfarfodydd staff bob dau fis hefyd i alluogi gwybodaeth berthnasol i gael ei rhannu ar draws tîm y ward ac i gynnig cyfle i'r aelodau staff rannu pryderon a gwneud awgrymiadau am wasanaethau cleifion.

⁴ Proses sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnal archwiliadau rheolaidd gyda chleifion unigol am eu gofal, ar adegau a nodir, yw rowndio bwriadol⁴.

Mae rheolwr y ward hefyd yn rhoi gwybodaeth metrigau⁵ wythnosol i'r uwch nyrs. Mae hyn yn helpu i nodi agweddau ar wasanaethau cleifion lle mae angen gwelliannau. Rhoddwyd disgrifiad i ni hefyd o weithgarwch archwilio sefydledig (e.e. sut mae gofal cleifion yn cael ei gofnodi ac arfer atal a rheoli heintiau) fel ffordd o sicrhau gwasanaethau cleifion diogel ac effeithiol.

Hyfforddiant a Datblygiad

Roedd rheolwr y ward yn agored ac yn ddidwyll am y ddarpariaeth o hyfforddiant a datblygiad i aelodau staff. Yn benodol, disgrifiodd yr ymdrechion a wnaed i alluogi aelodau staff i fynychu hyfforddiant ar ddiogelu, iechyd a diogelwch a phynciau eraill sy'n gysylltiedig â gofal cleifion. Bu achlysuron, fodd bynnag, pan gafodd yr hyfforddiant ei ganslo'n fyr rybudd. Anogir aelodau staff i fynychu sesiynau hyfforddi yn eu hamser eu hunain hefyd; rhoddir yr oriau hynny 'yn ôl' i'r aelodau staff cyn gynted â phosibl. Fe'n hysbyswyd hefyd bod Ward 3 wedi bod yn gyfrifol am greu a chyhoeddi canllawiau cryno i aelodau staff ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion â dementia/colled cof byrdymor. Datgelodd trafodaeth bellach gyda'r uwch nyrs y cynlluniau sydd ar waith ar gyfer cynyddu e-ddysgu i aelodau staff yn ogystal â hyfforddiant ymarferol yn amgylchedd y ward i nyrsys cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd cynorthwyol.

Canfuwyd gennym fodd bynnag nad yw rhai nyrsys cofrestredig yn teimlo wedi eu hymrymuso i wneud penderfyniadau am agweddau penodol ar ofal cleifion (h.y. pryd y dylid tynnu cathetrau wrinol cleifion ar ôl llawdriniaeth a phan roedd yr angen yn codi i gynorthwyo cleifion i gymryd eu hinswlin eu hunain/gwirio eu glwcos gwaed eu hunain fel yr oeddent wedi bod yn ei wneud gartref cyn cael eu derbyn i'r ysbyty).

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus a chymwys o ran bob agwedd ar y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion bob amser.

⁵ Mae metrigau gofal yn cyfeirio at system o fesur ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion. Ystyrir bod hyn yn ganolog i ddarparu GIG sy'n fwy tryloyw ac atebol ac sy'n canolbwyntio ar welliant.

Ymdrin â Chwynion a Phryderon

Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw gwynion yn ymwneud â Ward 3 heb eu datrys ar adeg yr arolygiad hwn. Rhoddwyd manylion tri chwyn i ni hefyd a oedd wedi cael eu hymchwilio a'u datrys yn brydlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol

Mae'n rhaid hybu a diogelu iechyd, diogelwch a lles pobl yn ymarferol. Mae'n rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r sylw a oedd yn cael ei roi i faterion sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal iechyd/gwasanaethau diogel ac effeithiol.

Rheoli Risg

Dangosodd trafodaethau gyda'r aelodau staff eu bod yn ymwybodol o bryd a sut i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol trwy System Datix.⁶ Cadarnhaodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod manylion digwyddiadau o'r fath yn cael eu cadw yn ôl y gofyn, ar ôl cymryd camau prydlon i sicrhau diogelwch parhaus cleifion. Canfuwyd gennym hefyd bod digwyddiadau clinigol wedi cael eu hymchwilio mewn ffordd amserol.

Polisiâu, Gweithdrefnau a Chanllawiau Clinigol

Roedd yr aelodau staff a siaradodd â ni yn gallu cadarnhau eu bod yn ymwybodol o rai polisiâu a gweithdrefnau clinigol perthnasol i'w cefnogi i ddarparu gofal diogel i gleifion. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio sut y byddent yn cael mynediad at ddogfennau perthnasol fel ffordd o sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau cleifion yn unol â chanllawiau perthnasol.

Fodd bynnag, ar ôl archwilio cofnodion pedwar claf, canfuwyd gennym fod y ward wedi cwblhau un ffurflen awdurdodi safonol yn ddiweddar (sy'n rhan o'r broses Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ledled y DU⁷). Prin oedd y

⁶ Dull a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi achosion digwyddiadau andwyol a damweiniau fu bron a digwydd yw meddalwedd DATIX.

⁷ Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Pan na fydd y galluedd meddyliol gan unigolyn i wneud penderfyniadau am y gofal neu'r driniaeth sydd eu hangen arno, mae'n rhaid dilyn deddfwriaeth o'r enw Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

manylion a oedd wedi eu cynnwys yn y ffurflen o ran sefyllfa'r claf. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd proses/cod ymarfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael ei dilyn fel sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth gyfredol. Er i sgysiau gydag aelodau staff ddynodi bod mesurau priodol wedi eu cymryd i sicrhau diogelwch yr unigolyn dan sylw, roedd y methiant i ddilyn y broses ragnodedig yn golygu na ddarparwyd eiriolwr i'r claf i'w gefnogi i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i driniaeth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith i awgrymu bod y caniatâd (i amddifadu'r claf o'i ryddid dros dro), wedi cael ei roi na bod asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol y claf wedi cael ei gwblhau. Tynnwyd sylw rheolwr y ward ac aelodau eraill uwch o'r bwrdd iechyd at y mater hwn a mynegasant barodrydd i fynd i'r afael â hyn fel mater o gryn frys.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod aelodau staff yn gymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae hyn oherwydd bod rheolwr y ward a'r uwch nyrs staff yn gallu disgrifio'r camau priodol a gymerwyd gan dîm y ward yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran camdriniaeth honedig/posibl o gleifion. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod tîm y ward yn gwbl ymwybodol o sut i sefydlu atgyfeiriad amddiffyn oedolion a chyda phwy yr oedd angen iddynt drafod materion o'r fath, o fewn yr ysbyty ac o fewn yr Awdurdod Lleol.

Systemau Effeithiol ar gyfer Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol

Cadarnhaodd trafodaethau gyda nyrsys cofrestredig a chraffu ar bum cofnod cleifion bod y ward yn defnyddio dangosyddion ansawdd fel bwndeli SKIN Cymru gyfan i fonitro croen cleifion/mannau pwysu. Canfuwyd gennym hefyd bod yr un dull yn cael ei ddefnyddio o ran monitro cwmpau cleifion, eu hanghenion maethgol, gofal ymataliaeth a'r defnydd o ganiwlâu

mewnwythiennol⁸ ar adegau pan fo angen cymorth ar unigolion trwy 'drip'. Roedd y canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion y fenter 1000 o fywydau.⁹

Roedd tîm y ward yn gallu darparu tystiolaeth i ni o'u harchwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd yr archwiliadau'n dangos lefel uchel o gydymffurfiaid â chanllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol dros gyfnod o ddeunaw mis. Fodd bynnag, gwelsom nifer fach o achosion lle na wisgwyd menig gan aelodau staff fel sy'n ofynnol, neu pan na wnaethant olchi eu dwylo. Gwelsom un achlysur hefyd lle na wisgodd aelodau staff ddillad diogelwch wrth ddarparu gofal a chefnogaeth i glaf. Trafodwyd y materion hyn gyda rheolwr ac uwch nyrs y ward ac, o ganlyniad, fe'n hysbyswyd y byddai archwiliadau golchi dwylo wythnosol yn cael eu cynnal ar y ward gan aelod annibynnol o staff yn y dyfodol. Nod y newid hwn fyddai lleihau gogwydd aelodau staff wrth gwblhau'r archwiliad. Cawsom sgwrs ag aelod o'r staff nyrsio atal a rheoli heintiau uwch am yr uchod hefyd. Hefyd, canfuwyd gennym fod rhywfaint o anghysondeb rhwng aelodau staff cadw tŷ ac aelodau staff y ward o ran pa mor aml roedd menig yn cael eu newid (fel ffordd o amddiffyn cleifion rhag croes-heintiad) mewn manau lle'r oedd cleifion yn bresennol. Fe'n hysbyswyd wedi hynny y byddai tîm y ward yn cyfarfod â'r pennaeth cadw tŷ i drafod a mynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod tîm y ward yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol ar Atal a Rheoli Heintiau fel bod cleifion ac aelodau staff wedi eu diogelu bob amser.

⁸ Tiwb y gellir ei roi yn y corff yw caniwla mewnwythiennol, yn aml ar gyfer darparu hylifau ychwanegol sydd eu hangen ar gleifion neu i dynnu gwaed ar gyfer samplu.

⁹ Rhedodd yr Ymgyrch 1000 o Fywydau o fis Ebrill 2008 tan fis Ebrill 2010. Ei nod oedd achub 1000 o fywydau ac atal 50,000 achos o niwed yng ngofal iechyd Cymru. Olynwyd yr Ymgyrch gan raglen genedlaethol o'r enw 1000 o Fywydau a Mwy ym mis Mai 2010, a geisiodd barhau cynnydd yr Ymgyrch a chyflwyno meysydd gwaith newydd. <http://www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/hafan>

Roedd gwybodaeth am ansawdd a diogelwch ar gael yn barod i aelodau staff, cleifion a pherthnasau, trwy hysbysfyrdau yn y coridor yn arwain at y gwelyau.

Diogelwch Cleifion

Canfuwyd gennym nad oedd Meddygon yn gwisgo bathodynau enw ac roedd bathodynau adnabod nyrsys wedi eu cuddio weithiau. Yn yr arolygiad hwn, roedd yn amlwg bod nifer o gleifion ar y ward ag anawsterau cyfathrebu cymhleth a nodwyd. Clywsom hefyd rai unigolion yn gofyn i aelodau staff ddweud pwy oeddent gan nad oedd yn gwybod pwy oedd yn siarad â nhw neu'n darparu gofal a chefnogaeth iddynt. Byddai gwisgo bathodynau enw hefyd yn arwain at allu adnabod yn gynnar unrhyw un a allai ddod i mewn i'r ward, at ddibenion diogelwch cleifion. Fel arall, pan nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid i aelodau staff sicrhau eu bod yn cyflwyno eu hunain i gleifion.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod amlwg.

Roedd gan bob claf fynediad at seinyddion galw ar yr erchwyn ac yn y toiledau/ystafelloedd ymolchi. Defnyddiwyd y seinyddion gan gleifion yn aml. Gwelsom fod aelodau staff yn ymateb bob tro yn brydlon/mewn amser rhesymol. Cadarnhaodd cleifion eu bod yn cael eu hysbysu fel rheol os bydd aelodau staff yn mynd i gael eu hoedi cyn ymateb i'w ceisiadau am gymorth.

Rheoli Meddyginiaethau

Trefn a dull y ward

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod safon uchel iawn o ofal o ran rhoi pob math o feddyginiaeth ar bresgripsiwn.

Gwelsom 'rownd' dosbarthu meddyginiaeth yn ystod yr arolygiad hwn. O ganlyniad, canfuwyd gennym fod aelodau staff yn mabwysiadu arferion diogel a chyson yn unol â pholisi presennol yr ysbyty a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Amlygodd sgysiau gyda nyrsys cofrestredig hefyd y swyddogaeth hanfodol a gyflawnir gan aelodau staff fferyllol penodol yr ysbyty o ran sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio, ei rheoli a'i rhoi'n ddiogel.

Dangosodd trafodaethau gyda nyrsys cofrestredig hefyd bod 'gweithdrefn meddyginiaeth amser critigol' wedi ei hen sefydlu ar waith ar y ward. Mae hyn er mwyn sicrhau y rhoddir rhai cyffuriau presgripsiwn i gleifion ar amseroedd

penodol gan eu bod yn hanfodol i les cleifion (e.e. gwrthfotigau, inswlin a meddyginiaeth gwrth-epileptig).

Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond yn rhannol yr oedd nifer fach o gleifion yn cael eu sgrinio gan lenni pan roedd pigiadau (tangroen) yn cael eu rhoi. Er na wnaeth y cleifion dan sylw fynegi eu pryder am hyn, mae'r dull hwn yn tansellio preifatrwydd ac urddas cleifion. Craffwyd gennym hefyd ar dri siart rhoi meddyginiaeth a oedd yn gysylltiedig â chleifion yn derbyn therapi ocsigen yn ystod yr arolygiad. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod yr ocsigen wedi cael ei roi ar bresgripsiwn. Fodd bynnag, canfuwyd bod gwybodaeth yn ymwneud â'r therapi ocsigen a chofnodi lefelau dirlawnder ocsigen cleifion ar ddogfennau eraill nyrsys.

Hefyd, fe'n hysbyswyd bod achlysuron pan nad yw aelodau staff meddygol yn cwblhau/ail-ysgrifennu siartiau presgripsiwn cleifion mewn ffordd brydlon ac amserol. Er nad yw hyn wedi arwain at unrhyw gamgymeriadau meddyginiaeth hyd yn hyn, mae angen mynd i'r afael â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau y gwneir gwelliannau i arferion rhoi a phresgripsiynu meddyginiaeth ar y ward. Mae hyn er mwyn sicrhau bod diogelwch, preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Storio cyffuriau

Gwelwyd bod y trefniadau sydd ar waith o ran storio cyffuriau yn briodol. Roedd y drws ar glo trwy gydol yr arolygiad deuddydd ac roedd cloeon priodol wedi eu gosod ar gypyrddau yn yr ystafell glinigol. Fodd bynnag, nid oedd oergell y ward ar glo ac nid oedd clo arni.

Ni welsom fod unrhyw feddyginiaeth wedi ei gadael heb ei goruchwylio yn ystod yr arolygiad.

Caiff cyffuriau a reolir eu storio'n briodol a gwelsom y rhain yn cael eu rhoi i gleifion yn unol â pholisi. Roedd cofnodion o roi meddyginiaeth a lefelau stoc yn cael eu cadw'n gywir.

Paratoi cleifion

Gwelsom fod gan y cleifion ddiod o fewn cyrraedd rhwydd ar adeg pan roedd meddyginiaeth yn mynd i gael ei rhoi. Gwelsom hefyd bod rhai cleifion yn gwisgo bandiau adnabod coch yn nodi bod ganddynt alergeddau hysbys yr oedd angen eu hystyried at ddibenion diogelwch.

Gwelsom hefyd fod y nyrsys cofrestredig yn gwirio pwy oedd cleifion yn gyffredinol cyn cynnig eu meddyginiaeth iddynt, er bod rhai achlysuron pan na wnaed hyn.

Dogfennau

Asesu Cleifion

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da ar y ward. Arweiniodd sgysiau gyda nifer fach o berthnasau at sylwadau tebyg.

Archwiliwyd pedwar cofnod cleifion yn drylwyr wedyn. O'r rhain, roedd tri yn cynnwys tystiolaeth bod anghenion cleifion wedi cael eu hasesu'n gyffredinol wrth eu derbyn. Roeddent hefyd yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau risg perthnasol e.e. lefel symudedd cleifion, ymataliaeth a chyflwr eu croen. Roedd y ffeil olaf yn cynnwys asesiad a gwblhawyd o ganlyniad i dderbyniad blaenorol. Nid oedd yn bosibl dod o hyd i dystiolaeth felly bod tîm y ward yn ymwybodol o anghenion gwirioneddol y claf wrth ei dderbyn. Dangoswyd hefyd o graffu ar gofnodion cleifion bod aelodau staff nyrsio yn cwblhau ffurflenni asesu risg, ond roedd y canfyddiadau'n anghyson. Er enghraifft, nid oedd cyflwr croen cleifion wedi ei sgorio'n gywir bob amser ac roedd lefel symudedd cleifion wedi ei sgorio'n anghywir weithiau. Ceir potensial y gallai hyn roi cleifion mewn perygl gan fod angen dealltwriaeth eglur o holl elfennau anghenion cleifion i gynorthwyo gyda chynllunio effeithiol a monitro gofal.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion nad oedd yr unigolion dan sylw wedi derbyn unrhyw fath o asesiad iechyd meddwl ar adeg eu derbyn na wedi hynny. O gofio bod nifer fawr o gleifion ar y ward hon yn aml sydd ag anawsterau gyda chyfathrebu/colled cof byrdymor, mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd meddwl cleifion yn cael eu hasesu o adeg eu derbyn.

Canfuwyd bod cynlluniau gofal a oedd yn dilyn asesiadau cleifion yn cynnwys canllawiau a argraffwyd ymlaen llaw ar sut y dylid darparu gofal (a adnabyddir hefyd fel cynlluniau gofal craidd). O ganlyniad, prin iawn oedd y dystiolaeth o ofal wedi ei bersonoli/unigoledig a oedd wedi deillio o'r broses asesu cleifion. Hefyd, roedd gwerthuso gofal wedi ei gofnodi i raddau helaeth ar daflen cofnod feunyddiol y ward a phrin oedd y wybodaeth yn y ddogfen hon i gynorthwyo

aelodau staff i ddeall y gofal parhaus sydd ei angen ar gleifion. Llwyddodd sgysiau gydag aelodau staff trwy gydol dau ddiwrnod ein harolygiad i gadarnhau eu bod wedi dod i adnabod eu cleifion yn dda, yn enwedig gan fod rhai pobl wedi bod yn derbyn gofal ers mwy na phedair wythnos. Canfuwyd gennym hefyd bod y ward yn defnyddio siartiau'r System Rhybudd Cynnar Genedlaethol¹⁰ i'w helpu i nodi dirywiad i anghenion cleifion. Fodd bynnag, os bydd aelodau staff newydd, nyrsys dan hyfforddiant neu aelodau staff asiantaeth neu fanc yn gweithio gyda thîm y ward, gallai fod yn anodd iddynt gael dealltwriaeth eglur o anghenion y cleifion yn gyffredinol.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod dogfennau cleifion yn rhan annatod o'r ddarpariaeth o ofal, gan fod gofal diogel yn seiliedig ar asesu clinigol, cynllunio gofal, darpariaeth o ofal a gwerthuso gofal effeithiol.

Dangosodd archwiliad o gofnodion cleifion a sgysiau gyda sawl aelod o staff eu bod yn darparu cefnogaeth i gleifion diabetig trwy ddefnyddio menter 'Think Glucose'¹¹. Roedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd i aelodau staff hefyd am fonitro glwcos gwaed gan fod y protocol ar gyfer trin glwcos gwaed isel ar gael ar y siart Think Glucose yn swyddfa rheolwr y ward ac ar gyfrifiadur y ward.

Datgelodd trafodaethau gyda chleifion eu bod wedi gallu rhoi eu hinswlin a chynnal profion glwcos gwaed yn annibynnol gartref. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd nad oeddent wedi gallu rheoli'r broses o roi inswlin eu hunain ers cael eu derbyn i'r ward. Yn ystod yr arolygiad hwn fodd bynnag, roedd camau'n cael eu cymryd i ail-addysgu un claf i'w alluogi i aildechrau cymryd ei inswlin ei hun.

Ni ddangosodd archwiliad o gofnodion un claf unrhyw dystiolaeth bod y claf wedi cael ei atgyfeirio at ddietygydd am gyngor, er i ddiffyg archwaeth gael ei nodi a chofnodion o glwcos gwaed isel. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan y

¹⁰ Mae'r System Rhybudd Cynnar Genedlaethol yn cynorthwyo aelodau staff gofal iechyd i ganfod dirywiad i gyflwr cleifion yn gyson, fel y gallant alw am help meddygol brys.

¹¹ Menter genedlaethol wedi ei harwain gan Sefydliad y GIG er Arloesedd a Gwella yw 'Think Glucose'. Ei nod yw gwella gofal diabetes cleifion mewnol gan gynnwys defnydd effeithiol o'r tîm diabetes cleifion mewnol arbenigol.

cleifion bod bwyd yn cael ei weini iddynt ar adegau priodol a bod byrbrydau ar gael iddynt bob amser. Amlygodd trafodaethau agored a didwyll dilynol gydag aelodau staff y ward bod angen gwelliannau i'r rheolaeth o ddiabetes (yn enwedig o ran hyfforddiant staff a'r angen i gynnwys aelodau eraill y tîm amlddisgyblaeth yn ddeinamig).

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd lechyd i ystyried ffyrdd o wella'r ddarpariaeth o ofal a chefnogaeth i gleifion â diabetes.

O bedair set o ddogfennau cleifion a archwiliwyd yn drylwyr, dim ond un oedd yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig o'r trefniadau sydd ar waith o ran y canllawiau 'Na Cheisier Dadebru' cyfredol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl y gallai penderfyniadau gael eu gwneud nad ydynt yn cyd-fynd â dymuniadau cleifion.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd lechyd am yr angen i wella'r broses sydd ar waith o ran penderfyniadau Na Cheisier Dadebru.

Prin iawn oedd y wybodaeth a ddatgelodd archwiliad o bedwar cofnod cleifion am y broses cynllunio rhyddhad neu dystiolaeth bod y claf neu ei berthnasau/cynrychiolwyr wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau am y mater hyd hynny.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd lechyd i sicrhau bod tystiolaeth o gynllunio rhyddhad effeithiol ar lefel ward.

Rheolaeth y Ward

Canfuwyd bod llawysgrifen aelodau staff yn wael/annarllennadwy ar adegau, sy'n codi'r posibilrwydd y bydd rhai elfennau o ofal cleifion yn cael eu camddeall.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd lechyd am yr angen i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu cofnodi'n eglur i gynorthwyo cyfathrebu effeithiol.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gofal a sylw priodol yn cael ei roi i gyfrinachedd cofnodion cleifion trwy gydol yr arolygiad deuddydd.

Dangosodd trafodaeth gyda rheolwr y ward bod trefniadau ar waith i archwilio a monitro cofnodion a'r broses o gadw cofnodion.

Fodd bynnag, canfuwyd tystiolaeth gennym fod taflen drosglwyddo argraffedig yn cael ei chynhyrchu'n feunyddiol i gynorthwyo gyda chyfathrebu elfennau allweddol a newidiadau i ofal cleifion i'r aelodau staff a oedd yn cyrraedd ar adegau newid shifft. Mae'r ddogfen a ddefnyddir ar gael ar gyfrifiadur ar y ward; fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn destun yr un lefel o graffu a mathau eraill o wybodaeth i gleifion. Er i ni gael ein sicrhau na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelu data hyd yn hyn, mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth trosglwyddo cleifion/ward a gynhyrchir yn cael ei chadw'n unol â deddfwriaeth diogelu data.

Dangosodd craffu ar gofnodion cleifion, trafodaethau gyda chleifion a sawl aelod o staff meddygol bod angen cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig gwell. Roedd hyn oherwydd i sawl claf a pherthynas ein hysbysu y byddai wedi bod yn well ganddynt dderbyn rhagor o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth gan aelodau meddygol tîm y ward. Mewn un achos, gwnaeth aelod o'r staff meddygol drefniadau i siarad â chlaf a'i berthynas fel ffordd o sicrhau'r claf am agwedd benodol ar ei ofal. Trafodwyd y mater hwn gyda'r cyfarwyddwr clinigol ar gyfer llawdriniaeth yn ystod yr arolygiad a gytunodd bod angen gwella o ran yr uchod.

Argymhelliad

Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau'r tîm meddygol yn darparu tystiolaeth wedi ei chofnodi o'u cyfraniad ymarferol at gynlluniau gofal amlddisgyblaeth cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Gyflawni Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol o'r arolygiad a chyflwyno ei Gynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ward 3 Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/ unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Ar ôl ei gytuno, cyhoeddir Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu Urddas a Gofal Hanfodol barhaus.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ward/ Adran: 3 (Trawma ac Orthopedeg)

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Medi 2014

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------------------|--|--|-------------------------|-----------------|
| | Ansawdd Profiad y Claf | | | |
| | Dim | | | |
| | Cyflenwi Hanfodion Gofal | | | |
| 8 | <i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau y darperir cymorth neu gymhorthion arbenigol i'r cleifion hynny ag anawsterau clywed, gan eu galluogi i dderbyn ac ymateb i wybodaeth.</i> | <p>Nid oes gan yr un o wardiau Ysbyty Brenhinol Morgannwg system dolen sain gan nad oedd hyn yn ofynnol pan adeiladwyd yr ysbyty 15 mlynedd yn ôl.</p> <p>Bydd cynnig yn cael ei drafod gan y Grŵp Cynllunio Cyfalaf Gweithredol</p> | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Rhagfyr 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|--|--|--|-------------|
| | | <p>Bydd y ddogfen derbyn/asesu claf yn nodi unrhyw glaf sydd ag unrhyw lefel o anabledd neu amhariad. Yna, rhaid i'r elfen hon o'r gofal gael ei cynllunio a rhaid nodi, gweithredu a monitro camau gweithredu penodol.</p> <p>Caiff safon y cynllunio gofal ei fonitro gan reolwr y ward gydag arolygiadau ar hap gan yr uwch nyrs a'r Pennaeth Nyrsio.</p> | <p>Cynllunio (Cyfalaf ac Ystadau)</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> | Hydref 2014 |
| 9 | <p><i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u hawliau dynol sylfaenol tra yn yr ysbyty.</i></p> | <p>Bydd cleifion yn cael eu hysbysu am ein haddewid urddas a byddant yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer eu cyfnod yn yr ysbyty a'u gofal.</p> <p>Mae'r Addewid Urddas wedi'i arddangos yn y ward ac o fewn cofnodion unigol cleifion a</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|---|--|------------------|--------------|
| | | <p>gedwir wrth waelod y gwely. Bydd staff yn cael eu cynghori i sicrhau y trafodir yr addewid urddas â'r cleifion pan gânt eu derbyn.</p> | | |
| 11 | <p><i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Mae hyn er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol. Gellir cofnodi canlyniadau penderfyniadau wedyn ar gyfer parhad gofal y claf.</i></p> | <p>Atgoffwyd holl staff y ward bod angen asesu a chofnodi lefelau poen cleifion.</p> <p>Trefnwyd mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl nyrsys cofrestredig a chynhelir hyn dros y tri mis nesaf.</p> | Pennaeth Nyrsio | Rhagfyr 2014 |
| 12 | <p><i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn gofal a chefnogaeth gyda'u hylendid personol ar adegau o'r diwrnod sy'n cydfynd â'u dymuniadau personol a nodwyd.</i></p> | <p>Dewis claf yw pryd ac ar ba amser maen nhw'n defnyddio'r cyfleusterau ymolchi neu gawod, ac fe'u cefnogir gan staff y ward.</p> <p>Mae achlysuron pan mae'r cleifion yn cael cawod yn gynnar i baratoi ar gyfer y theatr, fel arall nid yw'n ymarferol i'r cleifion gael cawod cyn 07:00 o'r gloch.</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd lechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|--|-------------------------|-----------------|
| 13 | <i>Cynghorir y Bwrdd lechyd i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd yn unol â'u dymuniadau ac yn unol â'r Hanfodion Gofal.</i> | Mae Cliniwipes ar gael i'r holl gleifion cyn bwyta. Anogir y staff i sicrhau bod y rhain ar gael ac i ofyn i'r cleifion eu defnyddio. Yna, mae'r claf yn dewis eu defnyddio neu beidio. | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |
| 14 | <i>Hysbysir y Bwrdd lechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn rhoi bwyd a diod o fewn cyrraedd rhwydd i bob claf.</i> | Mae'r staff nyrsio yn mynd gyda'r staff arlwygo ar amserau bwyd ac maen nhw yno i sicrhau bod gan gleifion fynediad at eu prydau. Rhoddir anogaeth a goruchwyliaeth yn ôl y gofyn. Atgoffwyd y staff bod angen sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at eu prydau | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |
| Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| 18 | <i>Cynghorir y Bwrdd lechyd i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus a chymwys o ran bob agwedd ar y ddarpariaeth o</i> | Anogir yr holl nyrsys cofrestredig i gymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel amlddisgyblaethol. | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|------------------|-------------|
| | <i>wasanaethau i gleifion bob amser.</i> | <p>Mae nyrsys cofrestredig ar bob lefel yn chwarae rhan mewn Rowndiau Bwrdd, lle trafodir cynllunio gofal a chamau gweithredu angenrheidiol.</p> <p>Mae cyrsiau arweinyddiaeth ar gael ac anogir y nyrsys i fynychu.</p> <p>Mae arfarniadau blynyddol ar waith lle trafodir ac eir i'r afael ag anghenion datblygu'r staff, ac mae'r ward hon yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd targed arfarniadau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol.</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |
| Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol | | | | |
| 21 | <i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod aelodau staff yn gymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae hyn er</i> | Caiff holl gymwysiadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu hadolygu gan ein Nyrs Arwain ar gyfer Diogelu cyn derbyn. | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|---|---|------------------|---------------|
| | <i>mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.</i> | <p>Caiff unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen ei gefnogi gan y Nyrs Arwain.</p> <p>Er mwyn monitro'r broses hon, bydd yr holl gymwysiadau yn awr yn cael eu hanfon at yr Uwch Nyrs cyn iddynt gael eu cyflwyno er mwyn nodi a oes unrhyw anghenion hyfforddiant eraill.</p> | | |
| 22 | <i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod tîm y ward yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol ar Atal a Rheoli Heintiau fel bod cleifion ac aelodau staff wedi eu diogelu bob amser.</i> | <p>Cydnabyddir y gall archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau fod â thuedd gan mai staff y ward sy'n eu cynnal, felly byddwn yn newid ein harferion a byddwn yn dechrau cynnal archwiliadau traws-ward yn fisol.</p> <p>Mae Gwasanaethau Cynnal a Chadw yn cydweithio'n agos â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau ac yn adolygu arferion presennol ynghyd â risg, a bydd Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau'r Bwrdd Iechyd yn adolygu hyn.</p> | Pennaeth Nyrsio | Tachwedd 2014 |
| 23 | <i>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn</i> | Mae gan yr holl staff fathodynau adnabod sydd wedi eu clipio ar eu pocedi. Yn | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd lechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|---|--|--------------------------------------|---------------|
| | <i>adnabod amlwg.</i> | <p>anffodus nid yw hyn ar lefel y llygad ac felly cydnabyddir nad yw enwau'r staff yn hawdd eu gweld.</p> <p>Dywedwyd wrth yr holl staff bod yn rhaid iddynt gyflwyno eu hunain â'u henw a'u swydd, gan esbonio sut y byddant yn cyfrannu at anghenion gofal ar y diwrnod hwnnw neu ar gyfer y cyfnod gofal hwnnw.</p> <p>Hyrwyddo'r fenter "Fy Enw i Yw"</p> <p>Caiff hyn y fonitro gan y Prif Nyrs Ward.</p> | Pennaeth Nyrsio/Cyfarwyddwr Clinigol | Hydref 2014 |
| 24 | <i>Cynghorir y Bwrdd lechyd i sicrhau y gwneir gwelliannau i arferion rhoi a phresgripsiynu meddyginiaeth ar y ward. Mae hyn er mwyn sicrhau bod diogelwch, preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.</i> | <p>Mae'r ward wedi rhoi proses ar waith lle mae'r nyrs â gofal yn cofnodi gofynion newidiol cydweithwyr meddygol eraill ac amserlen y camau gweithredu sydd angen.</p> <p>Yna, mae'r nyrs â gofal yn gyfrifol am gysylltu â'r meddyg ac am sicrhau y caiff gwaith ei wneud yn amserol.</p> | Pennaeth Nyrsio | Tachwedd 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|--|---|--|---------------|
| | | <p>Os yw problemau'n codi yn sgil hyn, rhaid i'r nyrs â gofal drosglwyddo'r broblem i'r Uwch Nyrs weithredu.</p> <p>Mae adolygiad o'r mater hwn y tu allan i oriau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac eir i'r afael â hyn yn yr Ysbyty adeg trosglwyddo yn y nos.</p> | Pennaeth Nyrsio | Tachwedd 2014 |
| 25 | <p><i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd meddwl cleifion yn cael eu hasesu o adeg eu derbyn.</i></p> | <p>Wrth i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty cynhelir asesiad o'r angen, ac nid yw hyn yn cynnwys asesiad penodol sy'n ymwneud ag anghenion iechyd meddwl claf. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'i holl ddogfennaeth a chodwyd yr elfen benodol hon o'r broses asesu gyda'r arweinydd.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda meddygon allweddol i ystyried asesiad Iechyd Meddwl byr y gellir ei ddefnyddio fel asesiad cychwynnol.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn datblygu ei wasanaeth Cyswllt Iechyd Meddwl, ac yna bydd aelod o'r tîm hwnnw</p> | <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio</p> <p>Pennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl</p> | Rhagfyr 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|--|---|------------------|--------------|
| | | ar gael i helpu gydag unrhyw asesiadau parhaus sydd eu hangen. | | |
| 26 | <i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod dogfennau cleifion yn rhan annatod o'r ddarpariaeth o ofal, gan fod gofal diogel yn seiliedig ar asesu clinigol, cynllunio gofal, darpariaeth o ofal a gwerthuso gofal effeithiol.</i> | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod gan ddogfennau swyddogaeth bwysig wrth ddarparu gofal i gleifion. Fel y nodir uchod, mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio yn arwain adolygiad o'r dogfennau drwy gydol y sefydliad. Wedi iddo gael ei gwblhau, bydd yn cael ei gefnogi gan raglen hyfforddiant gadarn a phroses archwilio | Pennaeth Nyrsio | Ionawr 2015 |
| 27 | <i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd i ystyried ffyrdd o wella'r ddarpariaeth o ofal a chefnogaeth i gleifion â diabetes.</i> | <p>Yn aml mae sawl rheswm pam na all claf weinyddu ei inswlin ei hun wedi iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty am achos aciwt o afiechyd. Fodd bynnag, y nod yw y dylai'r holl gleifion sy'n rheoli eu triniaeth therapiwtig yn annibynnol ailddechrau hyn cyn gynted â phosibl.</p> <p>Drwy dderbyn hyfforddiant o'n Nyrsys Diabetes Arbenigol caiff yr holl staff eu hatgoffa bod angen nodi hyn adeg derbyn ac o fewn y cynllun gofal.</p> <p>Yn ogystal, mae gwaith parhaus dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol</p> | Pennaeth Nyrsio | Rhagfyr 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd lechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|---|--|------------------|-------------|
| | | <p>Nyrsio ar ddarparu Polisi/gweithdrefn er mwyn helpu staff i sicrhau bod cleifion yn parhau i fod mor annibynnol â phosibl tra'n cadw at bolisiau meddyginiaeth a rheolaeth hefyd.</p> | | |
| 27 | <p><i>Hysbysir y Bwrdd lechyd am yr angen i wella'r broses sydd ar waith o ran penderfyniadau Na Cheisier Dadebru.</i></p> | <p>Mae gan y Bwrdd lechyd bolisi Na Cheisier Dadebru cadarn.</p> <p>Mae rheolwr y ward yn trefnu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer yr holl nyrsys cofrestredig ar y ward, a chefnogir hyn gan Nyrsys Allgymorth Gofal Critigol.</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |
| 27 | <p><i>Cynghorir y Bwrdd lechyd i sicrhau bod tystiolaeth o gynllunio rhyddhad effeithiol ar lefel ward.</i></p> | <p>Mae cynllunio rhyddhad yn rhan hanfodol o'r llwybr cleifion ac mae staff yn cydweithio'n agos â'r nyrsys Cyswllt Rhyddhau i sicrhau bod y broses o ryddhau cleifion yn cael ei chynllunio ac yn amserol. Yn ogystal, mae'r uwch nyrs a Phenaethiaid nyrsys yn cynnal rowndiau bwrdd gyda staff y ward bob dydd er mwyn nodi materion allweddol y gellid codi er mwyn gweithredu ymhellach yn eu cylch</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |
| 27 | <p><i>Hysbysir y Bwrdd lechyd am yr angen i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael</i></p> | <p>Mae gan nyrsys cofrestredig gyfrifoldeb o dan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gadw</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--------------|--|--|------------------|-------------|
| | <i>eu cofnodi'n eglur i gynorthwyo cyfathrebu effeithiol.</i> | <p>cofnodion yn unol â'u safonau eu hunain. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant i staff nyrsio.</p> <p>Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran dogfennaeth, a'u bod yn cynnal archwiliadau ar hap gyda chefnogaeth yr uwch nyrs.</p> | | |
| 28 | <i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth trosglwyddo cleifion/ward a gynhyrchir yn cael ei chadw'n unol â deddfwriaeth diogelu data.</i> | <p>Mae gan bob sifft nyrsio broses drosglwyddo hanner awr a wneir ar lafar ar gyfer dau ddeg wyth o gleifion. Mae hyn wedi'i ategu gan grynoded sydd wedi'i argraffu o statws cyfredol cleifion a'u hanghenion gofal ar gyfer y sifft honno. Cedwir y wybodaeth hon ar y system TG ddiogel ac mae gan bob nyrs fynediad drwy gyfrinair.</p> <p>Ar ddiwedd pob sifft rhaid gosod y ddogfen hon yn y gwastraff cyfrinachol.</p> <p>Yn ogystal, yn awr mae'r nyrsys wedi cael eu hysbysu i beidio â mynd â gwybodaeth</p> | Pennaeth Nyrsio | Hydref 2014 |

| Rhif Tudalen | Canfyddiad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------|---|--|-------------------------------|---------------------|
| | | <p>oddi ar y ward ar eu hegwyl, rhaid cadw'r wybodaeth mewn drôr dan glo yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Atgoffwyd y staff am statws y ddogfen hon, a bod angen iddynt wirio dogfennau nyrsio, cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar gyfer y cleifion y maen nhw'n gyfrifol amdanynt ar ddechrau pob sifft. Hefyd, rhaid iddynt fanteisio ar bob cyfle i ddarllen cofnodion meddygol cleifion.</p> <p>Atgoffwyd yr holl staff bod y daflen drosglwyddo yn daflen atgoffa ac nad yw'n ddogfen gyfreithiol ar gyfer casglu neu gofnodi gwybodaeth hanfodol cleifion.</p> | <p>Pennaeth Nyrsio</p> | <p>Hydref 2014</p> |
| <p>28</p> | <p><i>Hysbysir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau'r tîm meddygol yn darparu tystiolaeth wedi ei chofnodi o'u cyfraniad ymarferol at gynlluniau gofal amlddisgyblaeth cleifion.</i></p> | <p>Caiff Nodiadau Meddygol eu harchwilio'n flynyddol.</p> <p>Gofynnwyd i arweinwyr yr archwiliad Clinigol hysbysu staff meddygol am ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn y cyfarfodydd archwilio, er mwyn atgyfnerthu arferion da.</p> | <p>Cyfarwyddwy'r Clinigol</p> | <p>Rhagfyr 2014</p> |

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (wedi'i brintio):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: